

Amcangyfrif manteision rheoli llifogydd yn naturiol

Mae'r prosiect hwn yn cynnig dull cenedlaethol symlach newydd i amcangyfrif manteision economaidd prosiectau rheoli llifogydd yn naturiol.

Dogfennau

Dull Amcangyfrif Manteision Rheoli Llifogydd yn Naturiol – Adroddiad Ymchwil

Crynodeb

Mae rheoli llifogydd yn naturiol yn cynnwys ystod o atebion ar sail natur gyda'r nod o adfer prosesau hydrolegol naturiol i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol:

- plannu coetir
- rhwystrau mandyllog
- ailgysylltu'r gorlifdir
- lleihau dŵr ffo
- adfer mawndiroedd

Mae llawer o brosiectau rheoli llifogydd yn naturiol yn gost isel ac yn cael eu harwain gan gymunedau. Fodd bynnag, maent yn aml yn wynebu heriau wrth sicrhau cyllid. Mae hyn oherwydd y gall dulliau modelu traddodiadol a ddefnyddir i amcangyfrif manteision economaidd fod yn ddrud ac yn gymhleth. Nod y dull newydd hwn yw mynd i'r afael â hyn trwy ddangos dull sy'n gymesur a chyson wrth amcangyfrif manteision economaidd prosiectau rheoli llifogydd yn naturiol.

Mae'r dull yn tynnu'n uniongyrchol ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'r ddealltwriaeth wyddonol ddiweddaraf ac yn caniatáu mireinio yn y dyfodol wrth i ddata a thystiolaeth fonitro newydd ddod ar gael.

Mae'n ymgorffori mewnwelediadau newydd o'r canlynol:

- [cyfeiriadur tystiolaeth gweithio gyda phrosesau naturiol](#) ar ei newydd wedd
- [rhaglen rheoli llifogydd yn naturiol Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol](#)
- [Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol diweddaraf](#) Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n darparu gwybodaeth am berygl llifogydd a difrod llifogydd cysylltiedig
- yr [offeryn Gwerthuso Canlyniadau ar yr Amgylchedd a'r Amgylchedd Hanesyddol \(EHOV-Lite\)](#) i amcangyfrif manteision amgylcheddol

Mae'r dull yn cynnig ffordd gyson, ymarferol a graddadwy o amcangyfrif manteision llifogydd a manteision amgylcheddol ehangach ar draws ystod o ymyriadau rheoli llifogydd yn naturiol. Drwy ddarparu dull cymesur, mae'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chynnal gwaith sgrinio a blaenoriaethu yn y cyfnod cynnar, yn enwedig mewn achosion lle byddai modelu pwrpasol yn ddwys o ran adnoddau neu'n anghymesur.

Felly, gall y dull helpu i arwain buddsoddiad a dyrannu adnoddau ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol, gan gefnogi amcan strategol Asiantaeth yr Amgylchedd o brif ffrydio atebion ar sail natur. Amlinellir hyn yn y [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i Lloegr](#) a'i [map trywydd](#), sy'n cydnabod rôl rheoli llifogydd yn naturiol wrth ddarparu gwydnwch rhag llifogydd a hinsawdd.

Gwybodaeth am y prosiect

Rheolwr y prosiect: Daniel Hine

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Risgiau Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o raglen ymchwil a datblygu ar y cyd Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Metadata'r prosiect

Categori

Polisi, llywodraethiant a chyllid.

Pynciau

Rheoli llifogydd yn naturiol, asesiad perygl llifogydd, costau llifogydd, buddsoddiad, cyfalaf naturiol.

Cod y prosiect:

FRS23248

Dyddiad cychwyn:

Mai 2023

Dyddiad cwblhau:

Gorffennaf 2025